UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arwain

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Rhowch eich manylion isod:

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

Ebost/Rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 26 Ionawr 2026 i:

Y Gangen Dysgu Proffesiynol
Yr Is-adran Ymarferwyr Ysgolion
Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: AdolygiadSafonauProffesiynol@llyw.cymru

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### Cwestiwn 1a

Ydych chi'n cytuno bod y strwythur ar gyfer y safonau proffesiynol diwygiedig yn glir ac yn hawdd ei ddeall?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Sylwadau ategol

**Mae gosod y safonau o dan bum prif bennawd gydag isbenawdau yn ffordd effeithiol o drefnu'r safonau. Mae'n anodd gwneud sylwadau manwl, heb weld y diwyg terfynol. Bydd eglurder y safonau yn dibynnu i ryw raddau ar y diwyg. Er bod y safonau wedi eu gosod allan yn glir, eto ymddengys fod tipyn o ailadrodd a nifer o'r safonau yn gorgyffwrdd â'i gilydd ac nid ydynt i gyd yn hawdd eu deall.**

### Cwestiwn 1b

Ydych chi'n cytuno bod y strwythur ar gyfer y safonau proffesiynol diwygiedig yn berthnasol i'r anghenion a'r arferion presennol?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Sylwadau ategol

**Er bod nifer helaeth o anghenion ac arferion sy'n gyffredin i bob ysgol, eto mae gofynion ysgolion unigol yn gallu bod yn wahanol iawn. Croesewir y pwyslais ar addysgeg. Mae gweld lle amlwg i ddysgu proffesiynol i'w gymeradwyo hefyd, ond rhaid sicrhau'r amser a'r cyllid i ysgolion allu cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol, gwerthfawr a rheolaidd i'w holl staff. Mae rhesymeg i'w weld yn y gwahanol grwpiau a nodir, ond mae angen eglurder ynghylch pwy a ystyrir yn 'arweinwyr ysgol'. Ai'r Uwch Dîm Arwain a olygir neu a yw'n cynnwys arweinyddion pwnc/meysydd dysgu a phrofiad ? Bydd nifer o staff yn perthyn i fwy nag un grŵp a bydd angen bod yn ymwybodol o hynny. Yn y safonau proffesiynol cyfredol, nodir Arweinyddiaeth fel un o'r pum safon proffesiynol ar gyfer pob athro. Gan mai ar ffurf cwestiynau mae'r safonau wedi'u nodi, rhaid holi beth yn union yw eu swyddogaeth – ai cwestiwn i brocio'r meddwl, yn hytrach na safon i ymgyrraedd ato ?**

### Cwestiwn 2a

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer cynorthwywyr addysgu?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Sylwadau ategol

**Ymddengys fod y cwestiynau yn berthnasol ar y cyfan, ond efallai y bydd angen addasu rywfaint ar y modd y'u holir. Nodir yn y ddogfen 'Dylai'r cwestiynau bob amser greu sgwrs naturiol'. Er mwyn sicrhau sgwrs naturiol, byddai angen addasu rhywfaint ar y modd yr holir y cwestiynau, gan ddefnyddio iaith berthnasol i gyd-destun y cymorthydd a chan gyfeirio at enghreifftiau penodol i'r unigolyn. Rhaid bod yn ymwybodol hefyd bod rhoi ystyriaeth ddifrifol i gwestiynau o'r fath yn cymryd amser. Bydd yn rhaid neilltuo amser ar gyfer y safonau, os ydynt am fod yn effeithiol. A roddir hyfforddiant i gynorthwywyr yn y maes ? A fydd hyfforddiant i'r sawl fydd yn ysgogi'r drafodaeth ? A roddir amser penodol i hyn ? A fydd hyn yn cael ei ariannu ? Dylai'r cyfan hyn fod wedi ei nodi'n glir. Siom yw nodi na cheir cyfeiriad at y Gymraeg – mae gan gynorthwywyr ran bwysig i'w chwarae yn y broses o hybu a hyrwyddo'r Gymraeg.**

**Cwestiwn 2b**

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer athrawon?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Sylwadau ategol

**Mae nifer o'r cwestiynau yn briodol, ond mae rhai o'r cwestiynau yn debyg iawn i'w gilydd. Mae'n siom nad oes unrhyw gwestiwn yn cael ei holi am y Gymraeg ac nad oes unrhyw gyfeiriad yma o gwbl at Ddeddf y Gymraeg ac Addysg. Mae angen sicrhau bod mwy o gysylltu rhwng amrywiol agweddau byd addysg. Mae'n bwysig bod y cwestiynau yn cael eu holi o fewn cyd-destun cyfleoedd hefyd. Er enghraifft, os disgwylir i athrawon ddiweddaru eu gwybodaeth am ryw elfen o'u gwaith, yna rhaid gofyn a yw'r cyfleoedd hynny'n cael eu cynnig iddynt o fewn eu gwaith. Mae'n hollbwysig bod amser ac arian yn cael eu neilltuo ar gyfer y safonau, os yw'r safonau yn mynd i fod yn llwyddiannus. Nid ydym am i'r safonau fod yn ymarfer biwrocrataidd, sy'n mynd ag amser prin athrawon. Rhaid sicrhau bod amser, amgylchedd priodol (ystafell bwrpasol a llonydd) ac arian ar gael ar gyfer gweinyddu'r safonau.**

**Cwestiwn 2c**

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer arweinwyr yn yr ysgol?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | | | x |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Ar y cyfan mae'r safonau'n briodol, ond mae angen trafodaeth a hyfforddiant er mwyn sicrhau cysondeb o ysgol i ysgol. Mae'r egwyddorion tu ôl i'r cwestiynau'n iawn, ond ar brydiau teimlir y gellid cyflwyno'r cwestiynau mewn modd mwy 'cyfeillgar' a hylaw. Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae diffyg cyfeiriad at y Gymraeg yn siom fawr. Fel sydd wedi ei nodi hefyd mewn cwestiynau blaenorol, mae'n hollbwysig bod amser ac arian ar gael, fel bod arweinwyr yn cael hyfforddiant, amser wedi'i neilltuo o fewn y diwrnod ysgol ar gyfer ymwneud â'r safonau.** |

**Cwestiwn 2d**

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer prifathrawon?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Ar y cyfan, mae'r safonau'n briodol ac yn adlewyrchu'r hyn a ddisgwylir gan benaethiaid. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi ystyriaeth bod dyheadau pennaeth wedi'u cyfyngu gan faterion megis cyllidebau a chapasiti. Mae holi cwestiwn e.e. 'I ba raddau rydych yn datblygu, yn modelu ac yn cynnal diwylliant lle mae dysgu proffesiynol wedi'i ymgorffori, a lle mae'r dysgu proffesiynol hwnnw'n gydweithredol ac yn seiliedig ar gynllunio i wella'r ysgol' yn gwestiwn digon teg i'w holi, ond beth y gall penaethiaid ei wneud os nad oes ganddynt yr arian na'r capasiti o ran amser i hyrwyddo datblygiad proffesiynol ? Nid oes unrhyw gyfeiriad at hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion – rhywbeth allweddol yn ôl dyheadau Deddf y Gymraeg ac Addysg ac mae gan benaethiaid ran allweddol i'w chwarae yn y broses o sicrhau statws priodol i'r Gymraeg.** |

**Cwestiwn 2e**

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer arweinwyr systemau?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | | | x |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Ymddengys fod yma faterion priodol i gnoi cil arnynt, ond rhaid mynegi siom unwaith yn rhagor am y modd yr anwybyddwyd y Gymraeg.** |

**Cwestiwn 3a**

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol i'w defnyddio yng nghyd-destun y broses sefydlu statudol orfodol (Athrawon Newydd Gymhwyso)?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | x | | | |

Sylwadau ategol

**Gall y safonau fod yn fan cychwyn ar gyfer ANG. Gallant roi ffocws i drafodaethau a sicrhau bod ANGiaid yn cael eu rhoi ar y llwybr cywir. Mae'n syniad da fod yr ANGiaid yn ymgyfarwyddo â'r gofynion yn gynnar iawn yn eu gyrfa. Tybed a fyddai hi'n syniad cyflwyno'r safonau yn ystod cyfnod AGA a bod y cyrsiau hyfforddi yn rhoi arweiniad pendant i'w myfyrwyr sut i ddefnyddio'r safonau er budd personol, er budd eu gyrfa ac er budd yr ysgolion y maent yn gweithio o'u mewn?**

**Cwestiwn 3b**

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol i'w defnyddio yng nghyd-destun dilysu ac achredu fel ei gilydd (er enghraifft ar gyfer Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu a'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth)?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | | | x |

Sylwadau ategol

**Mae'n debyg y gallent gael eu defnyddio mewn rhyw ffordd fel rhan o'r hyfforddiant. Teimlaf y byddai angen edrych arnynt o'r newydd a'u diwygio rywfaint, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl addas.**

**Cwestiwn 4**

Ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn hwyluso sgyrsiau datblygu anffurfiol?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | | | x |

Sylwadau ategol

| |
|---|
| **Gallaf weld y byddai'r safonau'n gallu sbarduno sgyrsiau datblygu. Byddent yn gallu bod yn un elfen o ddarlun tipyn ehagnach. Mae'n bwysig bod sgyrsiau o'r fath yn rhai y mae'r gweithlu yn teimlo'n hollol gyfforddus â nhw. Ni ddylai neb deimlo unrhyw arlliw o fygythiad. Buaswn yn tybio mai ar lefel wirfoddol y byddai sgyrsiau datblygu anffurfiol yn digwydd.** |

**Cwestiwn 5a**

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y disgrifyddion ategol a'r cwestiynau cysylltiedig yn gefnogol ac yn ddatblygiadol?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Sylwadau ategol

| |
|---|
| **Mae'r iaith ar brydiau'n gyffredinol iawn ac yn niwtral. Go brin y gellid dweud eu bod yn 'gefnogol', ond ar y llaw arall ni ellir dweud nad ydynt yn 'gefnogol' chwaith.** |

**Cwestiwn 5b**

Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y disgrifyddion ategol a'r cwestiynau cysylltiedig yn hyrwyddo ymdeimlad o broffesiynoldeb?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | | | x |

Sylwadau ategol

| |
|---|
| **Os ydynt i hyrwyddo ymdeimlad o broffesiynoldeb, mae gofyn sicrhau bod yr amgylchedd yn un 'proffesiynol' – h.y. bod gan y gweithlu yr amodau priodol i allu cyflawni'r safonau. Rhaid wrth amodau gwaith teg, cyllid digonol ac amser priodol i allu ymroi i'r safonau.** |

**Cwestiwn 6a**

Ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn ysgogi sgyrsiau proffesiynol a fydd yn annog unigolion i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau i'r sector addysg yng Nghymru?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Sylwadau ategol

**Er mwyn i'r sgyrsiau annog unigolion i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau i'r sector addysg yng Nghymru, mae'n rhaid alinio'r safonau yn agosach at y diweddaraf yn y sectorau hynny e.e. ADY, Deddf y Gymraeg ac Addysg a sicrhau'r amodau gorau posibl i athrawon allu cyflawni'r safonau.**

**Cwestiwn 6b**

Ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn galluogi'r agenda gwella ysgolion sy'n datblygu?
(Rhowch x o dan y pennawd perthnasol.)

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| | | x | | |

Sylwadau ategol

**Efallai y gall y safonau fod yn un elfen a fydd yn cyfrannu at y broses o wella ysgolion. Nid ydynt o ran eu hunain yn mynd i alluogi ysgolion i wella. Os ydynt yn mynd i ychwanegu at lwyth gwaith athrawon, gallant fod yn rhwystr i ysgolion yn hytrach nag yn gymorth. Yn wir, mae perygl y gallai canolbwyntio ar y safonau dynnu llygaid athrawon oddi ar eu priod waith. Rhaid osgoi unrhyw berygl o fod yn ymarfer biwrocrataidd.**

**Cwestiwn 7**

A oes unrhyw ddisgrifyddion sy'n aneglur, y dylid eu newid neu sydd ar goll?

Sylwadau ategol

**A fyddai modd bod yn fwy cyson yn yr iaith a ddefnyddir e.e o fewn yr un safon, defnyddir 'y pedwar diben' ar gyfer arweinwyr ysgol ond 'dibenion y cwricwlwm' ar gyfer prifathrawon. Oni fyddai hi'n well glynu wrth yr un termau ?**

**Yn y safon sy'n edrych ar Ddeall sut mae disgyblion yn datblygu, cyfeirir yn y safon ar gyfer prifathrawon at 'roi sylw penodol i ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau'. Yn rhyfedd, ni chyfeirir at 'ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau' ar gyfer y grwpiau eraill, ond yn hytrach cyfeirir at 'ddileu rhwystrau'. Tybir y byddai defnyddio'r un termau ar gyfer pob un o'r grwpiau yn ei gwneud hi'n haws.**

**Ychydig o sôn sydd am lythrennedd a rhifedd yn benodol. Nid oes unrhyw sôn am y Gymraeg.**

**Nid oes unrhyw gyfeiriad at ddefnyddio a rheoli cyllid yn y safonau ar gyfer arweinyddiaeth.**

**Teimlaf y dylid cyfeirio'n fwy penodol hefyd at ddysgwyr ag ADY.**

**Cwestiwn 8**

Pa fath o gymorth allai fod o ddefnydd er mwyn i'r safonau gael eu defnyddio'n effeithiol?

**Sylwadau ategol**

**Er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r safonau ac er mwyn iddynt gael eu defnyddio'n fwyaf effeithiol, mae angen hyfforddiant ar bob carfan o'r gweithlu. Bydd angen gwybod sut i ymateb, yn ogystal â sut i hybu sgwrs gydag eraill. Dylid neilltuo cyllid ac amser i'r diben hwn. Byddai hi hefyd yn ddefnyddiol derbyn rhai enghreifftiau ac astudiaethau achos.**

**Cwestiwn 9**

A oes effeithiau eraill i'r cynigion hyn yr hoffech sôn amdanynt?

**Sylwadau ategol**

**O'u defnyddio'n iawn, gallai'r safonau fod yn fuddiol, ond mae perygl i'r safonau ychwanegu at lwyth gwaith athrawon. Er ein bod yn gweld gwerth mewn ystyried a myfyrio ar ymarfer, eto mae'r broses yn gallu bod yn un llafurus.**

**Cwestiwn 10**

Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Sylwadau ategol**

**Croesawn y cyfeiriad at y Gymraeg yn rhannau agoriadol y ddogfen a'r cyfeiriad a geir yn y fan honno at ymgorffori'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cwricwlwm a diwylliant ysgolion a rhoi cyfle i bob dysgwr a gweithiwr proffesiynol ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ar ôl y geiriau cychwynnol, addawol hyn, siom yw sylwi nad oes unrhyw gyfeiriad pellach at y Gymraeg.**

**Rydym wedi teimlo'n optimistaidd a gobeithiol yn sgil Deddf y Gymraeg ac Addysg, ond ofer yw unrhyw ddeddf os na'i gweithredir. Ni fydd modd sicrhau cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, os na fydd pwysigrwydd y Gymraeg yn rhan allweddol o'r gyfundrefn addysg. Er mwyn gwireddu amcanion Cymraeg 2050, mae'n rhaid**

**cymryd pob cam posibl tuag at gynyddu'r niferoedd o fewn y gweithlu addysg, sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Mae 'Iaith a diwylliant Cymru' wedi eu nodi fel agweddau yn y safonau presennol, ond ni cheir unrhyw fath o gyfeiriad at y Gymraeg na diwylliant Cymru yn y safonau diwygiedig (dim ond yn y rhagymadrodd i'r ddogfen). Tybiwn fod hyn yn gam yn ôl o ran y Gymraeg ac mae hyn yn siom fawr i ni. Mae'n hollbwysig bod y gweithlu addysg yn cael pob cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a bod hyn yn treiddio drwy'r ddogfennaeth. Mae'n rhyfedd nad oes unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg yn y safonau diwygiedig, tra bo cyfeiriad at y Gymraeg yn y safonau presennol. Ymysg y cyfeiriadau at y Gymraeg yn y safonau presennol, mae'r cyfeiriad at sgiliau Cymraeg yn glir iawn. O dan y pennawd 'Sgiliau Cymraeg' nodir y canlynol:**
**Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:**
**Mae'r athro'n gweithredu i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio ei ddealltwriaeth a'i sgiliau Cymraeg, ac i ehangu'r ddealltwriaeth honno a'r sgiliau hynny.**
**Disgrifydd ymsefydlu: Ceir ymrwymiad personol i ddatblygu sgiliau gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.**
**Disgrifydd SAC: Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg**
**Ar lefel arweinyddion, ceir y canlynol:**

**Hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru**
**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol iawn a pharhaus: Mae arweinwyr yn ceisio ac yn manteisio ar bob cyfle i werthfawrogi a hyrwyddo diwylliant Cymru a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.**

**Disgrifydd arweinyddiaeth ffurfiol effeithiol: Mae arweinwyr yn gosod esiampl i ddysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned drwy ymrwymiad cadarnhaol i fwynhau dysgu Cymraeg**

**Credwn y dylai hyfforddiant yn y Gymraeg fod yn rhan o AGA a datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu addysg yng Nghymru.**

**Cwestiwn 11**

Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynigion er mwyn:

- sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Sylwadau ategol**

**Gweler y sylwadau yng nghwestiwn 10.**

**Yn ddelfrydol, dylid sicrhau bod elfennau o'r safonau wedi'u llunio yn y Gymraeg ac nid wedi'u cyfieithu o'r Saesneg. Nid yw gweithio o gyfieithiad yn ddelfrydol, felly er mwyn sicrhau tegwch i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, dylai rhai dogfennau gael eu creu yn y Gymraeg a'u cyfieithu i'r Saesneg.**

**Cwestiwn 12**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

**Bod yn ddienw**

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, rhowch x yma:

| | |
|---|---|
| Hoffwn fod yn ddienw | |